OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 3161 (Cy.275)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2009

Gwnaed - - - -	*2 Rhagfyr 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*4 Rhagfyr 2009*
Yn dod i rym - -	*1 Ionawr 2010*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 35(4) a (5), 36(4) a (5) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2009 a deuant i rym ar 1 Ionawr 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006

2.—(1) Mae Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 10(8), yn lle'r gair "Rhaid", rhodder "Yn ddarostyngedig i baragraff (8A), rhaid".

(3) Ar ôl paragraff (8) o reoliad 10 mewnosoder—

"(8A) Caiff y corff llywodraethu benderfynu peidio â hysbysebu'n unol â pharagraff (8) y swydd wag i bennaeth neu ddirprwy bennaeth pan fo'r swydd wag honno mewn ysgol a enwir mewn cynigion a gyhoeddir o dan adrannau 29 i 32 o Ddeddf 1998 fel un y caiff disgyblion sydd mewn ysgol sydd i'w therfynu ei mynychu ("yr ysgol newydd") ac—

(**1**) 2002 p.32. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. *Gweler* adran 212 i gael y diffiniad o "regulations".

(**2**) O.S. 2006/873 (Cy.81), fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/944 (Cy.80)), Rheoliadau Addysg (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Diogelu Plant) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/2544 (Cy.206)) a Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2009 (O.S. 2009/2708 (Cy.226)).